# PWYLLGOR PENSIYNAU, 23.09.11

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones (Cadeirydd).
Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Trevor Edwards, John G. Jones

**Aelodau Cyfetholedig:-** Y Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a'r Cynghorydd Tom Jones (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:-** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Simon Glyn a John W. Jones

Croeso
Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Stephen Churchman i'w gyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn..

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd Keith Greenly-Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2011/12.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd W. Tudor Owen yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2011/12.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. MATERION BRYS**

Nid oedd y materion canlynol wedi eu cynnwys ar raglen y pwyllgor, ond cytunodd y Cadeirydd eu cynnwys dan Adran 100B (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972, oherwydd y derbyniwyd y wybodaeth ar ôl i'r rhaglen gael ei dosbarthu.

**a) Dim effaith ar Asedau Cronfa Gwynedd o Fasnachu Anawdurdodedig ym Manc Buddsoddi UBS**

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at y datganiad canlynol a dderbyniodd gan y Grŵp Rheoli Asedau parthed yr adroddiadau a ymddangosodd yn y wasg yn ddiweddar ynglyn â masnachu anawdurdodedig ym Manc Buddsoddi UBS sy'n cadarnhau na effeithiwyd ar unrhyw asedau cleient ac y cyfyngwyd y mater i'r Banc Buddsoddi –
"Mae UBS wedi canfod colled yn sgîl masnachu anawdurdodedig gan fasnachwyr yn ei Fanc Buddsoddi. Mae'r mater yn parhau i gael ei ymchwilio, ond mae amcangyfrif cyfredol UBS o'r colledion gyda'r masnachu hwn yn oddeutu USD 2 biliwn. Mae'n bosibl y

gallai hyn arwain at UBS yn adrodd colledion yn nhrydydd chwarter 2011. Ni effeithiwyd ar amgylchiadau unrhyw gleient. Mae'r mater hwn wedi ei gyfyngu i'r Banc Buddsoddi. Ni effeithiwyd ar reolaeth asedau cleientiaid Rheoli Asedau Byd-Eang ac ni effeithiwyd ar unrhyw Gleientiaid Rheoli Asedau Byd-Eang nac ar eu hamgylchiadau".

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**b) Prisiad Meincnod 2010**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at adroddiad a dderbyniodd gan Hymans Robertson parthed prisiad 2010 oedd yn cymharu canlyniadau prisiad pob cronfa yng Nghymru ar yr un sail prisio, gan ddangos bod Cronfa Gwynedd mewn sefyllfa cryfach o lawer na'r rhan fwyaf o gronfeydd eraill. Addawodd anfon copi at aelodau'r pwyllgor a bwriedir ei drafod yng nghyfarfod y Panel Buddsoddi.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2011 fel rhai cywir.

**6. STRATEGAETH BUDDSODDI**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddi y cynhaliwyd cyfarfod chwarterol Panel Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn ar 27 Gorffennaf 2011 yng Nghaernarfon pryd y trafodwyd nifer o newidiadau i'r strategaeth buddsoddi.

Mewn perthynas ag Ecwiti Cofrestredig – Dyraniad Rhanbarthol, nododd y swyddog y derbyniwyd adroddiad gan Hymans Robertson ar gynnig newid rhaniad, a barn y panel oedd y dylid mabwysiadu targed rhaniad 30/70 o blaid ecwiti dramor yn hytrach na'r rhaniad 40/60 presennol.

Yn dilyn ystyried adolygiad o'r strwythur buddsoddi ym mis Mai 2011, cyflwynwyd papur ar fuddsoddi mewn is-adeiladwaith gan Hymans Robertson. Barn y panel oedd y dylid gwneud rhaniad o 2.5% i fuddsoddiad mewn is-adeiladwaith gyda'r bwriad o gynyddu'r rhaniad i 5% yn y tymor hir. Er mwyn cyflawni'r newid bydd angen lleihau'r dyraniad i ecwiti. Cytunwyd yng nghyfarfod y panel i'r swyddogion ymchwilio i'r ffordd orau o symud ymlaen gyda buddsoddiad mewn is-adeiladwaith. Derbyniwyd barn gyfreithiol gan Eversheds ynglyn â'r gwahaniaeth rhwng buddsoddi'n uniongyrchol a phenodi rheolwyr buddsoddi fyddai'n dylanwadu ar sut i fynd o gwmpas buddsoddi mewn is-adeiladwaith.

**PENDERFYNWYD newid y rhaniad ecwiti o fewn y gronfa i 30 Ecwiti DU 70 Ecwiti Tramor ac yn wyneb maint cymharol fychan y buddsoddiad, gofyn i Hymans Robertson gyflwyno rhestr o gronfeydd y byddai modd i'r Cyngor fuddsoddi'n uniongyrchol ynddynt gan adael i'r panel ddewis cronfa briodol o'r dewis a gyflwynir.**

**7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad cyntaf yn cynnwys**

**gwybodaeth ariannol a busnes cwmni arall a byddai ei ddatgelu ar hyn o bryd yn groes i fuddiannau masnachol y Cyngor. Mae'r ail adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ariannol cwmni allanol a drosglwyddwyd i'r Cyngor gyda'r disgwyliad y bydd yn cael ei gadw'n gyfrinachol. Mae'r budd cyhoeddus o barchu'r cyfrinachedd hwnnw yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus a ddeuai o ddatgelu'r wybodaeth.**

## 8. MANDAD ECWITI BYD-EANG GWEITHREDOL

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddi y cynhaliwyd cyfarfod chwarterol Panel Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn yng Nghaernarfon ar 27 Gorffennaf 2011.

Nododd bod perfformiad un o'r Ymgynghorwyr Buddsoddi wedi bod yn destun trafodaeth ers cryn amser erbyn hyn a nodwyd gan y panel bod y perfformiad wedi gwaethygu yn y chwarter diwethaf ac mae'n edrych yn amheus a fydd modd iddynt adennill er mwyn dychwelyd perfformiad positif eleni.

Rhoddodd fanylion am farn y panel parthed y mater, sef eu bod o'r farn y dylid hysbysebu am Reolwr Cronfa Ecwiti Byd-Eang Gweithredol er mwyn gwarchod sefyllfa'r gronfa ac i sicrhau bod yr holl ddewisiadau posibl yn agored i'r Cyngor er mwyn dygymod â'r sefyllfa.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a hysbysebu am Reolwr Cronfa Ecwiti Byd-eang Gweithredol.**

## 9. BUDDSODDIAD IS-ADEILADWAITH YNG NGHYMRU

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddi y trafodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol o'r Panel Buddsoddi y posibilrwydd o wneud buddsoddiadau Cronfa Bensiwn mewn is-adeiladwaith. Yn ystod y trafodaethau, pwysleisiwyd y byddai unrhyw benderfyniad i wneud buddsoddiad o'r fath yn gorfod cael ei seilio'n bennaf ar ddychweliadau i'r gronfa ac asesiad risg, ac yn gyffredinol byddai hynny'n arwain at ddull cronfa o gronfeydd er mwyn lledaenu'r risg. Yn amodol ar achos busnes priodol fodd bynnag, gallai buddsoddiad penodol unigol fod yn dderbyniol mewn rhai amgylchiadau.

Nododd y derbyniwyd cais gan Gwmni Duet Asset Management, Llundain, sy'n noddi prosiect is-adeiladwaith mawr ym Mlaenau Gwent mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a'r Cynulliad. Maent yn arbenigo mewn rheolaeth asedau amgen ar ran buddsoddwyr soffistigedig. Disgrifir y prosiect fel datblygiad trawsffurfiol a byddai'n arwain at fuddiannau economaidd sylweddol i'r rhanbarth a chynyddu proffil rhyngwladol Cymru. Addawyd cefnogaeth gan y Cynulliad a San Steffan gyda phecyn cefnogol ariannol penodol, trosglwyddiad o dir a chyfraniad at gostau datblygu.

Anelir at gynnig targed dychweliad o 15% o gynnyrch strwythurol yn ystod y cyfnod adeiladu, difidendau a derbyniadau gwerthiant tros gyfnod o 10 mlynedd i fuddsoddwyr.

Rhoddodd fanylion am asesiad o'r cynllun a'r cyngor a dderbyniwyd gan Hymans Robertson.

**PENDERFYNWYD ar sail risg proffil, i beidio rhoddi ystyriaeth pellach i'r cynllun hwn.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 2.40pm